

Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo gynadledda Teams ar **14 Ebrill 2025** am 6.30 pm.

PRESENNOL:- Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Gareth Parry (Cadeirydd), Cyng. Medwyn Hughes (Dirprwy Faer), Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. John Wyn Jones, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Delyth Russell, Cyng. John Wyn Williams a'r Cyng. Jackie Spence.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Carwyn Davies (Swyddog Gweinyddol) a Sioned Jones (Cyfieithydd) a dau aelod o'r cyhoedd.

139/24 YMDDIHEURIADAU: Cyng. Simon Hibbs, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Gareth Roberts, Cyng. Lisa Toth a'r Cyng. Michael Pattison.

140/24 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL.

Datganwyd Datganiad o Fuddiant Ariannol a Chysylltiad Personol gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Gareth Parry, yn eitem 10.

141/24 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

i) YMWYBYDDIAETH A PHROFION RADON.

Cafodd y Cyngor gyflwyniad gan gynrychiolydd o Terahss (CIC) Ltd ar Brofi Nwy Radon ac eglurodd fod Bangor ac yn enwedig Gwynedd ac Ynys Môn mewn perygl uchel o Nwy Radon. Nwy di-liw a di-arogl yw Nwy Radon sy'n digwydd yn naturiol o dan y ddaear. Mae bodau dynol mewn perygl uchel o effeithiau'r nwy naturiol hwn a gall achosi llawer o broblemau iechyd fel canser yr ysgyfaint. Yna aeth y cynrychiolydd ymlaen i esbonio bod Terahss (CIC) Ltd wedi canfod atebion i fynd i'r afael ag effeithiau Nwy Radon ar bobl. Roedd y cynrychiolydd o'r farn y dylai'r Cynghorwyr gael gwybod am y risg uchel i ddinasyddion Bangor.

142/24 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR AR 17 MAWRTH 2025.

PENDERFYNWYD: derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 17 Mawrth 2025 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

143/24 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

Roedd yr adroddiad wedi cael ei ddosbarthu cyn y cyfarfod.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Dinesig sylw at sawl pwynt o'i adroddiad gan gynnwys:-

- i) Bod Claire Hughes AS wedi trefnu cyfarfod rhwng Cyngor Gwynedd ac Aelodau a Swyddogion Cyngor y Ddinas ar 10 Ebrill i drafod adfywio'r Ddinas.
- ii) Roedd gêm griced Bangor yn erbyn Bangor yn llwyddiant ysgubol ar ddiwrnod heulog hyfryd. Gan gadarnhau'r cysylltiadau agosach y mae'r gêm hon wedi'u creu, roedd Bangor, Gogledd Iwerddon yn edrych ymlaen at ymweliad arall gan ein tîm y flwyddyn nesaf. Hefyd, mae Tîm Rygbi Bangor wedi cael ei herio i gêm gyfeillgar debyg gan Fangor Gogledd Iwerddon.
- iii) Ar yr 8fed o Fai, bydd Bangor, fel llawer o'r DU, yn coffáu 80fed Pen-blwydd Diwrnod VE. Fel rhan o'r coffáu hwn, am 9.30 pm bydd coelcerth yn cael ei goleuo ar ben yr Arch Goffa gan gynrychiolydd o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Cynhelir gwasanaeth coffa byr wrth y Gofeb Ryfel a bydd clychau'r Eglwys Gadeiriol ac Egwylsi eraill yn cael eu canu. Oni bai bod unrhyw broblemau technegol, bydd enwau'r rhai na ddychwelodd o'r rhyfel yn cael eu goleuo ar wal Pontio.

PENDERFYNWYD: Derbyd yr adroddiad.

144/24 TRAFOD YNNI SOLAR AR NEUADD Y PENRHYN.

Cyflwynwyd y dyfynbris drafft terfynol ar gyfer gosod ynni solar yn Neuadd y Penrhyn yn unol â'r cais o gyfarfod diwethaf y Cyngor. Trafodwyd yn fanwl y goblygiadau cynnal a chadw a'r gost o osod yr offer hwn trwy gyflenwr lleol.

PENDERFYNWYD: Gohirio'r eitem hon i gyfarfod mis Mehefin. Gofynnodd y Cyngor i Gyfarwyddwr y Ddinas wahodd y Swyddog Prosiect i'r cyfarfod nesaf i egluro'r gwaith cynnal a chadw a'r costau yn y dyfodol ar gyfer yr opsiwn hwn.

145/24 YMRWYMO I SIARTER CWRTEISI A PHARCH UN LLAIS CYMRU A SLCC.

Cafodd dogfennaeth ar siarter Siarter Cwrteisi a Pharch ei dosbarthu ymlaen llaw i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch y dogfennau a ddarparwyd mewn cydweithrediad gan Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cyngorau Lleol (SLCC). Byddai llofnodi'r siarter yn dangos bod Cyngor y Ddinas yn cytuno i ddilyn rhai o'r pwyntiau yn y Siarter, sef:-

- i) Bod ein cyngor wedi cytuno y bydd yn trin pob cynghorydd, clerc a phob gweithiwr, aelodau'r cyhoedd, cynrychiolwyr sefydliadau partner, a gwirfoddolwyr, â chwarteisi a pharch yn eu rôl.
- ii) Bydd ein cyngor yn ymrwymo i dynnu sylw at fwlio ac aflonyddu pan fydd yn digwydd.

Gwnaed sylwadau gan Gyngorwyr nad oedd dogfennau'r siarter ar gael yn y Gymraeg.

PENDERFYNWYD: Gohirio'r eitem hon tan mae fydd fersiwn Cymraeg o'r siarter ar gael i Gynghorwyr.

146/24 ETHOL DARPAR FAER AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG NESAF.

Gwahoddwyd enwebiadau i sefyll am swydd Maer Dinas Bangor ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2025-2026. Cynigiwyd ac eiliwyd enw'r Dirprwy Faer, y Cynghorydd Medwyn Hughes. Derbyniodd y Cynghorydd Hughes yr enwebiad.

PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd Medwyn Hughes yn Faer Bangor am y Flwyddyn Ddinesig 2025/2026. Bydd y Cynghorydd Hughes yn cael ei urddo'n ffurfiol yng Nghyfarfod Blyneddol y Cyngor ar 12 Mai 2025.

147/24 ETHOL DARPAR DDIRPRWY FAER AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG NESAF.

Gwahoddwyd enwebiadau i gynghorwyr sefyll fel Dirprwy Faer Dinas Bangor ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2025-2026. Cyflwynwyd dau enw ac fe'u cynigiwyd a'u heiliwyd yn briodol. Cafwyd pleidlais i ddilyn.

PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd Delyth Russell yn Ddirprwy Faer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2025/2026. Bydd y Cynghorydd Russell yn cael ei hurddo'n ffurfiol yng Nghyfarfod Blyneddol y Cyngor ar 12 Mai 2025.

148/24 GWRTHWYNEBIAD I DORIADAU LLES GAN SAN STEFFAN.

Cyflwynwyd cynnig i alw ar yr Aelod Seneddol y Gwir Anrhydeddus Ms Claire Hughes i wrthwynebu diwygio budd-daliadau newydd y Papur Gwyrdd yn San Steffan. Cynhaliwyd trafodaeth ar sut y byddai'r toriadau arfaethedig yn effeithio ar ddinasyddion Bangor.

PENDERFYNWYD: Gofynnodd y Cyngor am bleidlais gofnodedig ar yr eitem hon. Pasiwyd y cynnig a bydd y Cyfaryddwr Dinesig yn ysgrifennu at Claire Hughes, Aelod Seneddol Bangor ac Aberconwy, ar farn Cynghorwyr y Ddinas ar y Papur Gwyrdd.

O blaid: Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Jackie Spence, Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. Delyth Russell, Cyng. Salamat Fada, Cyng. John Wyn Jones, Cyng. Medwyn Hughes a'r Cyng. Gwynant Roberts.

Yn erbyn: Y Cynghorydd Steve Bell.

Ymatal: Cyng. John Wyn Williams a'r Cyng. Dylan Fernley.

149/24 TRAFOD MATER LLETY AELOD O STAFF.

Penderfynodd y Cyngor fod yr eitem hon o natur sensitif, ac y dylid trafod yr eitem yn gyfrinachol.

PENDERFYNWYD: Cytuno ar y pwyntiau canlynol:-

- i) Dim ond am 6 mis yn unig y gall y Cyngor gynnig llety i'r aelod staff tan 31 Hydref 2025. Cynigir hyn fel budd mewn nwyddau.
- ii) Bod yr aelod o staff yn ysgrifennu llythyr i gadarnhau y byddant yn gadael y llety.
- iii) Bod yr aelod o staff yn cyfrannu'n ariannol at filiau cyfleustodau'r eiddo.

150/24 YSTYRIED CAMAU GAN Y CYNGOR YN YSTOD Y DREFN GWYNO SWYDDOGOL.

Cynhaliwyd trafodaeth ar sut y byddai'r Cyngor yn ymdrin â chwyn ddifrifol yn erbyn Cynghorydd ac a ddylid, mewn sefyllfa o'r fath, atal Aelod yn ystod yr ymchwiliad. Hysbyswyd y Cyngor gan y Cyfarwyddwr Dinesig, gan fod pob Aelod yn swyddog etholedig, na ellir cymryd unrhyw gamau i atal unrhyw Aelod rhag mynychu cyfarfodydd y Cyngor. Fodd bynnag, roedd yn fwy ymarferol i'r Cyngor ddewis atal Aelod o bwyllgor yn ystod ymchwiliad ffurfiol. Byddai newid o'r fath yn gofyn am ddiwygio'r rheolau sefydlog.

Yn dilyn trafodaeth fanwl nid oedd cefnogaeth i bleidlais ffurfiol.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.55 pm

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR